COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED A GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 3 RHAGFYR 2025 13:00

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

M J Evans
N Farr
J Gebbie

Presennol – O Bell

H T Bennett
S J Bletsoe
RM Granville
I M Spiller
R Williams
T Wood

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Louise Connolly | Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol |
| Jason Frowen | Swyddog Cyswllt Tref a Chymuned |
| Oscar Roberts | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro – Pwyllgorau |

## 43. Ymddiheuriadau am absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Cynghorydd Chris Davies, Cynghorydd E Winstanley, Cynghorydd P Ford a Cynghorydd M John. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 3 Rhagfyr 2025 |

## 44. Datganiadau o fuddiant

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Gwnaed y datganiadau buddiant canlynol:- |

| | |
|---|---|
| | Y Cynghorydd N Farr – Buddiant Personol – Eitem 4 – Gan fod arian wedi ei ddyfarnu i Dref Porthcawl drwy'r grant.<br><br>Y Cynghorydd M Williams – Buddiant Personol – Fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Coety Uchaf.<br><br>Y Cynghorydd J Spanswick – Buddiant Personol – Eitem 4 – Fel aelod o Gyngor Cymuned Bracla, sydd wedi ei grybwyll yn yr adroddiad.<br><br>Y Cynghorydd J Gebbie – Buddiant Personol – Eitem 4 – Fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Castellnewydd Uchaf<br><br>Y Cynghorydd I Spiller – Buddiant Personol – Eitem 4 – Fel aelod o Gyngor Cymuned Trelales a Chyngor Tref Pen-y-bont.<br><br>Y Cynghorydd H Bennett – Buddiant Personol – Eitem 4 – Fel aelod o Gyngor Cymuned Castellnewydd Uchaf<br><br>Y Cynghorydd E Caparros – Buddiant Personol – Eitem 4 – Fel aelod o Gyngor Cymuned Bracla ac fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Llangrallo Isaf.<br><br>Y Cynghorydd T Thomas – Buddiant Personol – Eitem 4 – Fel aelod o Gyngor Cymuned Ynysawdre ac fel Is-gadeirydd Cyngor Cymuned Llansanffraid-ar-Ogwr<br><br>Y Cynghorydd S Bletsoe – Buddiant Personol – Eitem 4 – Fel aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont a Chyngor Cymuned Coety Uchaf<br><br>Y Cynghorydd M Evans – Buddiant Personol – Eitem 4 – Fel aelod o Gyngor Tref Pencoed<br><br>Y Cynghorydd R Williams – Buddiant Personol – Eitem 4 – Fel aelod o Gyngor Tref Pencoed<br><br>Y Cynghorydd R Granville – Buddiant Personol – Eitem 4 – Fel aelod o Gyngor Cymuned Corneli<br><br>Y Cynghorydd T Wood – Buddiant Personol – Eitem 4 – Fel aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 3 Rhagfyr 2025 |

## 45. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Bod cofnodion 29 Gorffennaf 2024 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 3 Rhagfyr 2025 |

## 46. Cronfa Grantiau Cyfalaf y Cyngor Tref a Chymuned

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol, oedd hysbysu Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned am fodel newydd ar gyfer darparu Cronfa Grant Cyfalaf y Cynghorau Tref a Chymuned (T&CC).<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau am y canlynol:<br><br>• Y meini prawf a bennwyd ar gyfer ariannu Prosiectau Cymunedol.<br>  • Nodau'r Gronfa Grantiau wrth gefnogi cymunedau a chydymffurfio ag amcanion y cytunwyd arnynt.<br>  • A oedd modd ychwanegu llinell at y polisi fyddai'n caniatáu newidiadau pellach lle bo angen.<br><br>Atebwyd y cwestiynau hyn gan y Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned:<br><br>(A) Wedi nodi’r newidiadau a amlinellwyd i Grant Cyfalaf y Cynghorau Tref a Chymuned<br><br>(B) Wedi nodi y bydd y Cabinet yn derbyn adroddiad gwybodaeth blynyddol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol am y ffordd y darparwyd Grant Cyfalaf y Cynghorau Tref a Chymuned. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 3 Rhagfyr 2025 |

## 47. Cyfathrebu Rhwng BCBC a Chynghorau Tref a Chymuned

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Swyddog Cyswllt Tref a Chymuned, oedd hysbysu Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn ers i Swyddog Cyswllt y Cynghorau Tref a Chymuned gael ei benodi ac roedd yn nodi rhai o'r heriau a wynebwyd.<br><br>Gofynnwyd hefyd am gymeradwyaeth gan y Fforwm ar gyfer mabwysiadu'r Protocol Cyfathrebu (Atodiad 1), sy'n egluro sut y caiff hyn ei wneud ac a gafodd ei ddatblygu mewn cysylltiad â gweithgor, oedd yn cynnwys cynrychiolwyr tri Chyngor Tref a Chymuned, y Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Cyswllt y Cynghorau. Mae'r Protocol Cyfathrebu yn gweithio gyda Siarter y Cynghorau Tref a Chymuned, sydd hefyd yn cael ei adolygu gan y gweithgor ar hyn o bryd. Disgwylir i'r gweithgor gwblhau ei adolygiad o'r Siarter ac adrodd yn ôl wrth gyfarfod nesaf Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch y canlynol:<br><br>• Lleiafswm amser cyswllt ar gyfer ymholiadau rhwng CBSP a Chlercod y Cynghorau Tref a Chymuned.<br>• A ddylai Swyddog Cyswllt y Cynghorau Tref a Chymuned gysylltu'n rheolaidd â chlercod ynghylch ymholiadau oedd yn mynd ymlaen.<br>• A ddylid cymhwyso'r gofyniad o bythefnos ar gyfer cyfathrebu i Glercod Cynghorau Tref a Chymuned yn ogystal â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Atebwyd y cwestiynau hyn gan y Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol oedd yn dweud y byddai'r Gweithgor arfaethedig yn ystyried ailsefydlu'r estyniadau y cytunwyd arnynt.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned:<br><br>(A) Wedi nodi a mabwysiadu'r Protocol Cyfathrebu er mwyn sicrhau cyfathrebu mewn ffordd safonol ac effeithiol yn y dyfodol rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cynghorau Tref a Chymuned (T&CCs).<br>(B) Wedi nodi y caiff Siarter y Cynghorau Tref a Chymuned ei ddiweddaru gan y gweithgor ac yr adroddir amdano wrth y |

| | |
|---|---|
| | Fforwm. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 3 Rhagfyr 2025 |

## 48. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 3 Rhagfyr 2025 |

Gofynnodd y Cadeirydd gwestiwn i'r cyfarfod ynghylch amseriad a phresenoldeb yn y cyfarfod gan Gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Fwrdeistref, gan geisio mewnbwn ar gyfer mewnbwn yn y dyfodol gan Swyddogion perthnasol.

Rhoddodd yr aelodau fewnbwn, gan awgrymu y dylai'r Swyddog Cyswllt Tref a Chymuned gysylltu â chlercod a'r Cynghorwyr i holi am y rhesymau dros beidio â bod yn bresennol a pha amseroedd a dyddiadau a allai fod fwyaf addas iddynt. Gwnaed awgrym arall gan Aelodau o gynnal arolwg o Gynghorwyr Tref a Chymuned ynghylch yr hyn fyddai orau ganddynt o ran yr amseroedd gorau ar gyfer cyfarfodydd Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned. Cytunodd y Swyddog Cyswllt Tref a Chymuned i ofyn y cwestiynau hyn i'r Cynghorau Tref a Chymuned.

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 13:39